

City & Guilds Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Pecyn Asesu



Fersiwn

Mai 2019 Fersiwn 1.0



Cynnwys

Cynnwys	2
1 Cyflwyniad	3
2 Trosolwg asesu	4
3 Briff yr ymgeisydd	5
4 Cyfarwyddiadau aseswyr/rheolwyr	9
5 Mapio - enghreifftiol	17
6 Pennu'r asesiad terfynol	19
7 Gofynion gweinyddu asesiadau cyffredinol	20
Atodiad 1 Ffurflen gynllunio'r ymgeisydd	21
Atodiad 2 Ffurflen gynllunio'r aseswr	23
Atodiad 3 Ffurflen cofnodi arsylwadau	25
Atodiad 4 Ffurflen cofnodi cyfarfod cynnydd	26
Atodiad 5 Ffurflen adolygu fyfyrion	28
Atodiad 6 Ffurflen cofnodi trafodaeth	29
Atodiad 7 Cofnod cwblhau asesiad	31
Atodiad 8 Ffurflen adborth	32
Atodiad 9 Datganiad	33

1 Cyflwyniad

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys dogfennaeth asesu'r cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion).

Dylai aseswyr a rheolwyr hefyd gyfeirio at **Ganllaw Cyflwyno'r Cymhwyster** am ragor o wybodaeth a chefnogaeth er mwyn paratoi i gynnal asesiadau ar gyfer y cymhwyster hwn.

2 Trosolwg asesu

Dull asesu

Bydd cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) yn cael ei asesu'n fewnol drwy gyfres o weithgareddau asesu.

- Cyfres o **dasgau strwythuredig** a ddefnyddir i gasglu tystiolaeth asesu ar gyfer y rhan fwyaf o'r cynnwys gorfodol, ac i ddarparu fframwaith i gasglu'r dystiolaeth ofynnol ar gyfer yr unedau a ddewisir o grŵp dewisol A. Bydd y tasgau hyn yn cynnwys arsylwi ar ymgeiswyr yn cynllunio pedwar gweithgaredd gwahanol; eu cyflawni'n ymarferol yn seiliedig ar eu cynlluniau ac, yn gwerthuso pob un o'r rhain.
- Bydd **portffolio o dystiolaeth** yn cael ei gadw ochr yn ochr â'r tasgau strwythuredig. Pwrpas y portffolio yw gweithredu fel tystiolaeth ar gyfer unrhyw unedau/deilliannau nad yw'n debygol y byddan nhw'n cael eu gweld yn rhan o'r tasgau strwythuredig nac yn ffurfio rhan o'r drafodaeth. Bydd hyn yn cynnwys elfennau sail sy'n rhan o'r cynnwys gorfodol, lle mae'r dystiolaeth yn fwyaf tebygol o ddod o'r hyn sy'n cael ei arsylwi neu'n ymhlyg mewn ymarfer o ddydd i ddydd. Bydd y portffolio hefyd yn cynnwys tystiolaeth o unedau dewisol grŵp B, lle na all tystiolaeth gael ei chynhyrchu'n hawdd o'r fframwaith o dasgau.
- Bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud am y dull asesu mewn **trafodaeth** wedi'i harwain gan yr aseswr er mwyn darparu pwynt cyswllt olaf i'r aseswr a'r ymgeisydd ar ddiwedd y broses asesu. Nod y drafodaeth yw cydgrynhai unrhyw feysydd o dystiolaeth na chawsant eu bodloni drwy'r tasgau strwythuredig neu'r portffolio.

3 Briff yr ymgeisydd

Dros gyfnod o 6 i 12 mis, byddwch yn gweithio gyda'r unigolion rydych yn gofalu amdany'n nhw ac yn eu cynorthwyo i gasglu tystiolaeth i gwblhau eich unedau dewisol. Bydd angen i chi ddangos sut rydych yn defnyddio eich gwybodaeth a'ch sgiliau ymarferol i gyfrannu at gefnogi eu hiechyd a'u llesiant.

Byddwch yn dilyn y polisiau a'r gweithdrefnau arferol sydd ar waith yn eich sefydliad/lleoliad, gan ddangos yr egwyddorion, gwerthoedd ac ymddygiadau allweddol sy'n sail i ofal a chymorth unigolion yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn ystod y cyfnod asesu mae'n rhaid i chi greu **pedwar cynllun** sy'n dangos sut y byddwch yn cyfrannu at gefnogi unigolion rydych yn gweithio gyda nhw yn eich rôl, neu gyfrannu at gefnogi cynlluniau personol unigolion rydych yn gofalu amdany'n nhw ac yn eu cefnogi. Dylai pob un o'r pedwar cynllun gael ffocws gwahanol – ac adlewyrchu cwmpas eich rôl a sut rydych yn cyfrannu at gefnogi iechyd a llesiant unigolion.

Bydd angen i chi ddefnyddio eich cynlluniau i ddangos sut rydych wedi cyfrannu at gefnogi unigolion drwy eu hymarfer mewn **pedwar achlysur**. Bydd eich aseswr yn arsylwi arnoch ar bob un o'r achlysuron hyn.

Bydd angen i chi fyfyrion ar y pedwar arsylwad ymarferol ac **adolygu pob un** ohonyn nhw; gan nodi sut mae eich ymarfer wedi cefnogi iechyd a llesiant unigolion.

Disgwylir i chi hefyd gwblhau log myfyriol yn rheolaidd yn ystod y cyfnod asesu, gan fyfyrion ar eich ymarfer wrth weithio gyda'r unigolion rydych yn eu cefnogi yn eich rôl a nodi unrhyw rai o'ch anghenion datblygu eich hun i'w trafod ymhellach â'ch rheolwr/aseswr. Hefyd bydd angen i chi gadw portffolio o dystiolaeth yn ystod y cyfnod asesu.

Y meysydd i'w hystyried ym mhob gweithgaredd asesu yw'r canlynol:

- Dulliau gweithredu person-ganolog
- Dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau
- Cyfathrebu
- Cyfranogiad gweithredol

Bydd eich rheolwr a'ch aseswr yn cynnal cyfarfod pwynt cyswllt cychwynnol gyda chi cyn i chi ddechrau'r tasgau er mwyn:

- Cadarnhau'r broses asesu, a thrafod pa weithgareddau i ymgymryd â nhw
- Sicrhau bod yr unigolion rydych yn cyfrannu at eu gofal ac yn eu cefnogi yn addas i gasglu'r dystiolaeth ofynnol ar gyfer yr unedau rydych yn eu cwblhau; gan gadarnhau'r caniatâd sydd ei angen i'w cadw fel rhan o'r tasgau asesu
- Trafod y cyfnod asesu, gan nodi'r gweithgareddau ar gyfer gofal a chymorth a allai fod yn addas, a'r adnoddau/amser sydd ar gael i chi
- Cytuno ar erbyn pryd y bydd angen i chi orffen cynllunio a chytuno ar ddyddiad ar gyfer mynychu cyfarfod cynllunio
- Cytuno ar sut bydd eich portffolio o dystiolaeth a log myfyriol yn cael eu rheoli
- Cynllunio cyfres o gyfarfodydd cynnydd lle bydd eich ymarfer dyddiol a'ch myfyrdodau yn cael eu hadolygu, gan helpu i nodi tystiolaeth portffolio.

Bydd eich aseswr yn arsylwi arnoch bedair gwaith o leiaf, a bydd yn gofyn cwestiynau i chi am eich ymarfer.

Bydd tystiolaeth ychwanegol yn cael ei chasglu drwy brosesau arferol y gweithle, gan gynnwys tystiolaeth tyst arbenigol gan eich cyflogwr neu fentor yn y gweithle.

Tasg A

- **Cyflawni gweithgareddau dyddiol** gydag unigolion rydych yn gweithio gyda nhw yn eich rôl. Rhaid i chi ddangos sut rydych yn cefnogi modelau person-ganolog, modelau partneriaeth a modelau cyd-gynhyrchu wrth gefnogi iechyd a llesiant unigolion. Bydd hyn yn cynnwys y ffordd rydych yn gweithio gyda chydweithwyr, gweithwyr proffesiynol ac eraill sy'n ymwneud â gofal a chymorth unigolion gan ddefnyddio dogfennau, prosesau a gweithdrefnau cytûn.
- **Llenwi'ch log myfyriol yn rheolaidd**, a sicrhau ei fod yn gyfredol wrth baratoi ar gyfer pob un o'ch cyfarfodydd cynnydd a gynlluniwyd.
- **Cyfarfod â'ch rheolwr/aseswr ym mhob un o'r cyfarfodydd cynnydd a gynlluniwyd** er mwyn trafod eich cynnydd, gan gynnwys sut mae eich gweithgareddau gwaith dyddiol yn cefnogi eich tystiolaeth portffolio.

Amodau asesu

Amodau arferol y gweithle

Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad

- log myfyriol
- portffolio o dystiolaeth i gynnwys dogfennaeth y gweithle, cofnodion cydsynio, cofnodion/nodiadau cyfarfodydd cynnydd, tystiolaeth tystion

Tasg B 1-4

Creu **pedwar cynllun** sy'n dangos sut byddwch chi'n cyfrannu at gefnogi'r unigolion rydych yn gweithio gyda nhw, neu gyfrannu at gefnogi cynlluniau personol unigolion rydych yn gofalu amdanyn nhw ac yn eu cefnogi.

Rhaid i bob un o'ch cynlluniau gynnwys:

- **Y math o weithgaredd gofal a chymorth**, gan ddisgrifio sut mae'n cyfrannu at gefnogi iechyd a llesiant yr unigolyn/unigolion
- **Amlinelliad o'r ffordd y bydd gofal a chymorth yn cael eu darparu**
- **Gofynion paratoi i ddarparu gofal a chymorth**, gan gynnwys unrhyw adnoddau neu ddeunyddiau sydd eu hangen, ystyriaethau amgylcheddol ac unrhyw waith paratoi a gosod ymlaen llawn sydd angen ei ystyried
- **Manylion eich rôl wrth ddarparu gofal a chymorth**
- **Pwy arall fydd yn rhan o'r gweithgaredd**, neu y gall fod gofyn iddo/iddi eich cynorthwyo, fel cydweithwyr, teuluoedd/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill, gan gynnwys esboniad o'u rolau yn y gweithgaredd
- **Ystyried cynlluniau wrth gefn**, gan gynnwys pa gamau i'w cymryd os byddwch yn wynebu unrhyw heriau wrth i chi ddarparu gofal a chymorth, a ni allwch fwrw ymlaen fel y bwriadwyd

Bydd angen i chi gyflwyno eich cynllun, a mynychu cyfarfod cynllunio gyda'ch rheolwr a'ch aseswr er mwyn cytuno ar eich cynlluniau cyn cynnal unrhyw weithgareddau.

Gallwch ddefnyddio eich ffurflen gynllunio eich hun, neu un rydych yn gyfarwydd â'i defnyddio yn eich lleoliad ar gyfer y dasg hon. Darparwyd ffurflen gynllunio enghreifftiol i ymgeiswyr (Atodiad 1) a gallech ddewis defnyddio hon yn lle.

Amodau asesu

Gweithio'n annibynnol mewn amodau tawel, lle cewch lonydd

Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad

- Ffurflen gynllunio'r ymgeisydd.

Tasg C 1-4

Paratoi ar gyfer rhoi gofal a chymorth i unigolion ar **bedwar** achlysur a chyfrannu at y gwaith hwn. Dylech ddefnyddio'r cynlluniau yr ydych wedi cytuno arnyn nhw gyda'ch rheolwr/aseswr fel sail ar gyfer cefnogi eich ymarfer.

Bydd eich aseswr yn arsylwi arnoch wrth i chi baratoi ar gyfer eich ymarfer, a'i gyflawni, ar **bob un** achlysur.

Amodau asesu

Amodau arferol y gweithle

Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad

Ar gyfer pob un o'r pedwar arsylwad:

- Cofnodion gofynnol y gweithle
- Unrhyw gofnodion ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd (gan gynnwys cofnodion cydsynio)
- Arsylwad yr aseswr

Tasg Ch 1-4

Cwblhau adolygiad myfyriol ar bob un o'ch arsylwadau ar ymarfer i drafod y canlynol:

- Yr hyn y gwnaethoch arsylwi arno yn ystod yr asesiadau; yr hyn a brofwyd gennych.
- Yr hyn a weithiodd yn dda yn eich barn chi; neu feysydd nad oedden nhw cystal yn eich barn chi
- Beth fyddech yn ystyried ei wneud yn wahanol yn y dyfodol, a sut byddech yn mynd ati.

Gallech gwblhau eich adolygiadau myfyriol mewn ffordd gyfarwydd neu ddefnyddio templed o'ch lleoliad ar gyfer y dasg hon. Darparwyd ffurflen adolygiad myfyriol enghreifftiol (Atodiad 5) a gallech ddewis defnyddio hon yn lle.

Amodau asesu

Gweithio'n annibynnol mewn amodau tawel, lle cewch lonydd

Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad

- Pedwar adolygiad o weithgareddau

Tasg D

Cael trafodaeth â'ch aseswr.

Bydd eich aseswr yn gofyn cwestiynau ar unrhyw feysydd nad oes ymdriniaeth lawn ohonyn nhw yn yr arsylwadau a'r portffolio er mwyn bodloni ei hun eich bod yn gallu gweithio mewn ffordd gymwys. Bydd yn cofnodi'r dystiolaeth a gasglwyd ac yn gwneud penderfyniad ar ôl y cyfarfod ynghylch p'un a yw'n gallu cymeradwyo eich cymhwyster.

Ni fydd angen i chi baratoi unrhyw beth penodol cyn y drafodaeth, na dod ag unrhyw beth gyda chi.

Fodd bynnag, byddai'n fuddiol treulio peth amser yn myfyrio ar eich dysgu, datblygiad a phrofiadau eich hun yn ystod y cyfnod asesu cyn y drafodaeth. Os byddwch yn paratoi unrhyw nodiadau, gallwch fynd â'r rhain gyda chi i'r drafodaeth.

Amseru

Disgwylir i'r drafodaeth fynd ymlaen am tua 20 munud.

Amodau asesu

Trafodaeth â'ch aseswr mewn amodau tawel, lle cewch lonydd

Beth mae'n rhaid ei gynhyrchu ar gyfer yr asesiad

- Nodiadau trafod yr aseswr

4 Cyfarwyddiadau aseswyr/rheolwyr

Mae adran ganlynol y ddogfen hon yn amlinellu cyfarwyddiadau rheolwyr ac aseswyr, a'u rolau wrth gynnal yr asesiad hwn. Dylai'r canllawiau hyn gael eu darllen a'u defnyddio ar y cyd ag adran (4) o **Ganllaw Cyflwyno'r Cymhwyster**.

Rolau yn y broses

Mae'r broses asesu yn dibynnu ar y rheolwr a'r aseswr yn sicrhau bod perfformiad yr ymgeisydd yn cael ei asesu mewn ffordd ddilys. Felly, mae'n bwysig bod y rheolwr a'r aseswr wedi nodi a chadarnhau cwmpas eu rolau, a'u rhan, cyn i'r broses asesu ddechrau.

Nodir diffiniadau a disgwyliadau rolau'r rheolwr a'r aseswr yn adran 4 o **Ganllaw Cyflwyno'r Cymhwyster**.

Cadarnhau'r cyfnod asesu

Mae disgwyl i'r cyfnod asesu gael ei gynnal o fewn cyfnod o 6 i 12 mis. Mae'r ystod amser wedi'i darparu i gefnogi'r amrywiaeth o rolau y bydd yr ymgeiswyr a fydd yn astudio'r cymhwyster hwn yn ymgymryd â nhw – a chynnwys, er enghraifft, y rhai hynny sy'n gweithio'n rhan amser. I'r rhai hynny sy'n gweithio'n llawn amser, mae disgwyl y byddai'n ymarferol i'r asesiad gael ei gynnal o fewn cyfnod o 6 mis. Dylai'r rheolwr/aseswr gadarnhau gyda'r ymgeisydd yn ystod y cyfarfod pwynt cyswllt cyntaf, ddisgwyliadau'r amserlen, yn seiliedig ar ei rôl, y maen nhw'n disgwyl i'r asesiad gael ei gynnal ynddi. Os y cytunwyd y bydd yr asesiad yn cymryd mwy na 6 mis, dylai'r penderfyniad ar gyfer hyn gael ei gofnodi, a darparu rhesymeg i gadarnhau pam y cytunwyd ar y dull gweithredu hwn. Dylai'r rhesymeg gael ei chadw a bod ar gael ar gyfer gweithgareddau sicrhau ansawdd allanol.

Defnyddio ffurflenni cofnodi

Darparwyd cyfres o ffurflenni cofnodi (gweler yr Atodiadau) i'w defnyddio; dim ond canllaw yw'r rhain, a gall aseswyr/rheolwyr benderfynu defnyddio eu ffurflenni eu hunain. Os defnyddir ffurflenni personol, rhaid iddyn nhw adlewyrchu/casglu'r un wybodaeth â'r hyn sydd i'w gael yn ffurflenni'r pecyn hwn. Argymhellir defnyddio'r ffurflenni sydd i'w cael yma ar ffurf electronig fel bod modd ychwanegu atyn nhw fel sy'n briodol, ac ehangu ar yr hyn a gofnodir gan yr aseswr. Gall copïau caled fod yn ddefnyddiol fel trosolwg, ond rhagwelir y bydd sawl tudalen ar ôl eu cwblhau, felly mae'n well eu cwblhau'n electronig. Gellir llwytho fersiynau electronig i lawr o wefan y Consortiwm.

Cynnal y cyfarfod pwynt cyswllt cyntaf

Y rheolwr fydd yn rhedeg y cyfarfod pwynt cyswllt cyntaf; â chefnogaeth yr aseswr.

Pwrpas y cyfarfod pwynt cyswllt cyntaf fydd:

- Cefnogi'r ymgeisydd i ddeall y broses asesu; ei weithgareddau a'r hyn sydd ei angen i gwblhau'r asesiad yn llwyddiannus
- Trafod rôl y rheolwr; y gefnogaeth y bydd yn ei rhoi a rôl cyfarfodydd cynnydd a gynlluniwyd drwy'r cyfnod asesu
- Cytuno ar ddyddiadau cyfarfodydd cynnydd a gynlluniwyd (noder, gallai'r cyfarfodydd hyn gael eu cynnal neu eu cynnwys fel rhan o sesiynau goruchwyllo/1:1 a drefnwyd eisoes)
- Trafod pwrpas a rôl elfen portffolio'r asesiad, gan gynnwys rôl y log myfyriol, a sut mae'n cefnogi'r asesiad cyffredinol, yn ogystal â sut bydd yn cael ei ddatblygu a'i gynnal
- Trafod rôl yr aseswr, a sut bydd yr ymgeisydd yn cael ei asesu'n ffurfiol
- Ystyried meysydd gwahanol o ofal a chymorth sy'n cael eu darparu gan yr ymgeisydd yn ei rôl a allai gael eu cynllunio ar gyfer elfen arsylwi'r asesiad; bydd yn cynnwys pennu disgwyliadau realistig o ran ystod y gofal a'r cymorth a allai gael eu cynnal gan ystyried yr unedau a ddewiswyd gan yr ymgeisydd; yr amgylchedd a'r adnoddau sydd ar gael

- Trafod a chytuno ar amserlenni cychwynnol ar gyfer y gwaith asesu cychwynnol, gan gadarnhau dyddiad ar gyfer y cyfarfod Cynllunio ar ôl cwblhau Tasg B
- Cadarnhau'r cydsyniad sydd ei angen gan unigolion a'u teuluoedd a'u gofalwyr, a ffyrdd o gadw diogelwch a chyfrinachedd drwy'r broses asesu.

Erbyn diwedd y cyfarfod pwynt cyswllt cyntaf, dylai'r ymgeisydd fod mewn sefyllfa i ddeall holl ofynion yr asesiad i'w gwblhau; y gweithgareddau i'w cyflawni ganddo a'r amserlenni cwblhau cychwynnol.

Nodiadau i'r rheolwr/aseswr

Mae Tasg B yn seiliedig ar yr ymgeisydd yn datblygu cynlluniau ar gyfer y gweithgareddau gofal a chymorth y bydd yn cael ei arsylwi yn eu cyflawni. Dylid nodi y dylai unrhyw ddatblygu cynlluniau fod yn rhan o gyd-destun rôl yr ymgeisydd; cydnabyddir na fydd ymgeiswyr ar Lefel 2 o reidrwydd yn arwain y gwaith o gynllunio gweithgareddau gofal a chymorth yn llawn. Nod y dasg hon yw helpu'r ymgeisydd i ddangos sut y bydd yn cyfrannu ar ofal a chymorth unigolion; beth fydd ei rôl, beth sydd angen ei wneud a pham. Ni fwriedir i'r dasg roi'r ymgeisydd mewn sefyllfa annilys neu sydd y tu hwnt i ddisgwyliadau ei rôl.

O ystyried natur y sector iechyd a gofal, dylid defnyddio'r elfen gynllunio fel sail i'r arsylwadau ymarferol (Tasg C). Mewn rhai achosion, efallai na fydd yr ymgeisydd yn gallu cyflwyno'n llawn y cynlluniau penodol y mae wedi'u datblygu. Mewn amgylchiadau fel hyn, dylid defnyddio'r cynllun yn sail i'r ymarfer, ond ni ddylai gyfyngu ar yr arsylwi ymarferol. Fel enghraifft, efallai y bydd yr ymgeisydd wedi cynllunio sut y bydd yn cyfrannu at ofal a chymorth hylendid personol unigolyn, a'i iechyd a'i ofal. Efallai y bydd wedi cyfeirio at unigolion yn ei gynllun – ond ni all yr unigolyn hwnnw gyfrannu at y gweithgaredd ar y diwrnod y bwriedir i'w arsylwi. Yn yr achos hwn, byddai cynnal gweithgaredd tebyg gydag unigolyn arall yn ddilys – gyda'r ymgeisydd yn ystyried o hyd yr ystyriaethau y mae wedi'u hamlinellu yn ei gynllun i gefnogi ei ymarfer, e.e. sut mae wedi paratoi, sut bydd yn cael cydsyniad, sut bydd yn bodloni ystyriaethau diogelu ac ati.

Cynnal y cyfarfod cynllunio

Yr aseswr fydd yn rhedeg y cyfarfod cynllunio, gyda chefnogaeth y rheolwr.

Pan gyflwynir ffurflen gynllunio'r ymgeisydd, dylai'r rheolwr a'r aseswr fod wedi cynnal adolygiad trylwyr o'r 'ffurflen gynllunio' a gyflwynwyd er mwyn cadarnhau ymarferoldeb y gweithgareddau o ran casglu digon o dystiolaeth seiliedig ar ymarfer ar gyfer yr unedau gofynnol.

Bwriedir i'r adnodd mapio enghreifftiol a ddarparwyd helpu aseswyr i ystyried y mathau o weithgareddau a fyddai'n gallu cael eu cyflawni, a sut y gall tystiolaeth ar gyfer gwahanol ddeilliannau ym mhob uned gael ei chynhyrchu ar gyfer pob gweithgaredd. Fodd bynnag, dim ond fel adnodd enghreifftiol a chefnogol y dylai'r adnodd mapio enghreifftiol gael ei ddefnyddio. Bydd y broses wirioneddol o fapio a chysylltu unedau/deilliannau yn cael ei diffinio gan y gweithgareddau a gyflawnir.

Cyn y cyfarfod cynllunio, dylai'r aseswr a'r rheolwr gyfarfod er mwyn cadarnhau eu bod yn fodlon ar yr hyn mae'r ymgeisydd wedi'i gynnig; neu p'un a oes unrhyw feysydd allweddol i'w hailystyried – neu unrhyw feysydd ymarfer craidd na fydden nhw'n cael eu gweld o'r amrywiaeth o weithgareddau gofal a chymorth a nodir yn y cynlluniau.

Darparwyd ffurflen gynllunio i'r aseswyr (Atodiad 2) er mwyn eu helpu i fapio cynllun yr ymgeisydd yn erbyn yr unedau/deilliannau gofynnol, a nodi, cyn y cyfarfod cynllunio, unrhyw fylchau na fyddai tystiolaeth ohonyn nhw efallai drwy'r gofal a chymorth a gynlluniwyd.

Yn y rhan hon o'r cynllunio, yr aseswr sy'n gyfrifol am sicrhau bod y gweithgareddau gofal a chymorth sydd wedi'u cynllunio a'u hamserlennu yn ddigon eang eu natur ar gyfer cynnwys gofynnol yr unedau – gan sicrhau y bydd modd arsylwi ar ddigon o dystiolaeth seiliedig ar ymarfer i allu arddel barn asesu ddilys. Os na fydd ymdriniaeth o'r deilliannau yn ystod yr arsylwadau ffurfiol, dylai'r aseswr sicrhau bod cynllun ar waith i ddarparu digon o dystiolaeth ar gyfer y meysydd hyn; p'un a yw hynny drwy elfen o ailystyried neu ailgynllunio'r gweithgareddau gofal a chymorth a gynlluniwyd i gael ei arsylwi; drwy dystiolaeth ychwanegol yn y portffolio, neu, os yw'n seiliedig ar wybodaeth, ei chofnodi i'w chynnwys yn y drafodaeth.

Pwrpas y cyfarfod cynllunio yw cwrdd â'r ymgeisydd ac,

- Adolygu'r cynlluniau o ran y gofal a'r cymorth mae'r ymgeisydd wedi'u cynnig
- Cadarnhau ymarferoldeb yr amrywiaeth o weithgareddau gofal a chymorth – o ran elfennau ymarferol, gofynion adnoddau a sicrhau y bydd modd cael digon o dystiolaeth seiliedig ar ymarfer at bwrpasau asesu
- Cadarnhau sut i gael caniatâd gan unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr a sut y byddwch yn cytuno arno, a sut i gadw cyfrinachedd a diogelwch drwy'r broses asesu
- Egluro ac amlinellu'r rolau yn y broses
- Cymeradwyo ffurflen gynllunio'r ymgeisydd, a chytuno ar amserlen gweithgareddau yn ffurfiol.

Cytuno ar adnoddau

Mae'r tasgau asesu yn gofyn i'r ymgeisydd gyfrannu'n ymarferol at ofal a chymorth unigolion mewn pedwar achlysur, yn seiliedig ar eu cynlluniau a ddatblygwyd. Dylid cyflawni'r arsylwadau ymarferol mewn amgylchedd gwaith go iawn – ni chaniateir efelychu yn yr asesiadau hyn. Oherwydd hyn, mae'n bwysig i'r rheolwr/aseswr helpu'r ymgeisydd i gael gafael ar yr adnoddau a'r amgylchedd a fydd yn ei alluogi i wneud ei orau glas. Yn ystod y cyfarfod pwynt cyswllt cyntaf, dylai disgwyliadau cychwynnol fod wedi'u pennu o ran yr amgylchedd a'r adnoddau sydd ar gael i'r ymgeisydd – felly dylai'r gweithgareddau gofal a chymorth yr arsylwir ymgeiswyr yn cyfrannu atyn nhw fod yn unol â'r gofal a'r cymorth sy'n hydrin a chyflawnadwy yn y sefydliad/lleoliad.

Cynllunio wrth gefn

Rhagwelir y bydd cyfarfod cynllunio yn cael ei gynnal er mwyn adolygu a chytuno ar amserlen y pedwar gweithgaredd gofal a chymorth a arsylwir. Gwnaed hyn er mwyn cefnogi arbedion effeithlonrwydd, a sicrhau llif gyflawni gyfannol yn ystod yr asesiad. Os na ellir cytuno ar bob gweithgaredd yn ystod y cyfarfod cynllunio hwn, rhaid i'r aseswr/rheolwr a'r ymgeisydd gytuno ar gyfarfod arall a'i drefnu er mwyn trafod a chytuno ar y gweithgareddau sydd ar ôl i'w cyflawni*.

** Os, ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod asesu, na fydd y gweithgareddau gofal a chymorth a gynlluniwyd yn ymarferol mwyach heb eu haddasu'n rhesymol, neu heb weithredu cynlluniau wrth gefn, dylai'r ymgeisydd gyfarfod â'r aseswr/rheolwr i gadarnhau a chytuno ar sut i fwrw ymlaen â'r gweithgarwch sy'n weddill. Gall fod angen ailgynllunio'r gweithgarwch cychwynnol.*

Cefnogi'r ymgeisydd drwy'r broses asesu

Yn ystod y broses asesu, dylai'r ymgeisydd gael amgylchedd priodol a digon o amser i sicrhau dilysrwydd gwaith cynllunio ac adolygu'r hyn a ysgrifennwyd (tasgau B a Ch).

Dylai'r amgylchedd fod yn un tawel yn y gweithle lle gall yr ymgeisydd gael llonydd i weithio. Gan fod y tasgau hyn yn gofyn i'r ymgeisydd roi mewnbnw a myfyrio, nid oes angen eu goruchwylio'n llawn amser, ond dylai'r aseswr allu cadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd yw'r hyn a gwblhawyd.

Dylai'r ymgeisydd gael amser i gwblhau gweithgareddau asesu, ar wahân i'w weithgareddau gwaith bob dydd. Dylai fod wedi trafod yr amser hwn gyda'r rheolwr, a chytuno arno, yn y cyfarfod cynllunio. Ar gyfer tasgau B a Ch, gall yr ymgeisydd ddewis cwblhau'r gweithgareddau hyn fesul un, neu eu cwblhau mewn un sesiwn.

Dylai trafodaethau yn ystod cyfarfodydd cynnydd a gynlluniwyd alluogi'r rheolwr/aseswr i nodi unrhyw bryderon ynghylch dilysrwydd; os daw pryderon i'r amlwg, dylen nhw gael eu cofnodi at bwrpasau adolygu ac archwilio Sicrhau Ansawdd Allanol. Bydd angen i'r ymgeisydd a'r rheolwr/aseswr lofnodi ffurflen datganiad (Atodiad 9) i gadarnhau dilysrwydd gwaith yr ymgeisydd. Hefyd bydd angen darparu ystafell dawel ar gyfer tasg E.

Nodyn ar derminoleg cyfarfodydd

Cyfeirir at y cyfarfodydd canlynol yn y ddogfen hon. Mae gan bob un fwriad gwahanol felly mae diffiniad cryno ohonyn nhw i'w gael isod.

Cyfarfod pwynt cyswllt cyntaf – cyfarfod pwynt cyswllt cyntaf wedi'i gynnal gyda'r ymgeisydd, drwy gyflwyniad i'r broses asesu.

Cyfarfod cynllunio – cyfarfod cynllunio wedi'i ddiffinio i adolygu cynlluniau'r ymgeisydd, a chadarnhau a chytuno ar y gweithgareddau asesu i'w cyflawni.

Cyfarfodydd cynnydd – cyfarfodydd parhaus drwy'r cyfnod asesu er mwyn cefnogi'r ymgeisydd.

Arsylwadau

Rhaid i'r aseswr gyflawni o leiaf bedwar arsylwad a asesir yn ystod y cyfnod asesu, gan arsylwi ar bedwar gweithgaredd a gynlluniwyd gan yr ymgeisydd.

Rhaid i aseswyr sicrhau bod diogelwch unigolion ac ymgeiswyr yn cael blaenoriaeth, a bod gofynion cyfrinachedd a diogelu data yn cael eu bodloni bob amser. Rhaid i'r aseswr sicrhau bod y cydsyniad gofynnol, fel yr amlinellir yn y cyfarfodydd pwynt cyswllt a chynllunio cyntaf, wedi'i gael cyn dechrau ar unrhyw weithgaredd arsylwi.

Bydd yr arsylwad yn gofyn i'r aseswr

- adolygu cynllun yr ymgeisydd ar gyfer y gweithgaredd cyn yr arsylwad,
- arsylwi'r ffordd mae'r ymgeisydd yn paratoi ar gyfer gofal a chymorth, ac yn eu darparu,
- holi'r ymgeisydd, gan samplu ei wybodaeth er mwyn bod yn siŵr ei bod ar y lefel ofynnol ar gyfer y rôl.

Dylai ffurflen cofnodi arsylwadau (Atodiad 3) gael ei chwblhau ar gyfer pob arsylwad. Mae'r ffurflenni cofnodi, ar y cyd â'r tasgau strwythuredig, yn helpu'r aseswr i farnu cymhwysedd heb fod angen cynnal sawl asesiad na gwneud penderfyniadau gronynnog. Mae rhan o'r ffurflen cofnodi arsylwad wedi'i neilltuo ar gyfer adborth yr ymgeisydd yn dilyn pob arsylwad.

Dylai'r aseswr adolygu'r dystiolaeth a gesglir gan bob arsylwad yn barhaus; os na fydd pob arsylwad yn mynd yn ôl y disgwyl ac nad arsylwir ar ddigon o dystiolaeth yn y tasgau cychwynnol yr arsylwir arnyn nhw, efallai y bydd angen ystyried p'un a oes angen cynnal mwy o arsylwadau. Os teimlir bod angen mwy o arsylwi, yna dylai hyn gael ei drafod â'r ymgeisydd a'r rheolwr; dylid amlygu'r rhesymau dros yr asesiad ychwanegol, a chadarnhau'r trefniadau ar gyfer hyn.

Portffolio o dystiolaeth

Cedwir y portffolio o dystiolaeth er mwyn casglu tystiolaeth nad yw'r tasgau strwythuredig yn ymdrin â nhw. Gall hyn gynnwys unedau unigol lle nad arsylwir ar unrhyw ddeilliannau dysgu yn y tasgau, neu elfennau unedau lle nad arsylwir yn ddigonol ar bob deiliant dysgu yn y tasgau. Bydd yn cael ei ddefnyddio hefyd i hwyluso'r broses o gasglu tystiolaeth o elfennau o'r cynnwys gorfodol sydd fwyaf tebygol o gael eu gweld mewn ymarfer dyddiol. Mae'n debygol hefyd y bydd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth ar gyfer unedau o Grŵp Dewisol B i'w gweld drwy'r portffolio.

Mae'r adnodd mapio enghrefftiol yn dangos y meysydd uned/deilliannau lle gall fod angen casglu tystiolaeth drwy'r portffolio o weithgareddau dyddiol, a'u monitro drwy gyfarfodydd cynnydd. Hefyd mae'n nodi pa dystiolaeth y disgwylir ei chasglu drwy'r tasgau. Weithiau, lle nad yw'r tasgau wedi gallu cynhyrchu digon o'r dystiolaeth a ddisgwyliwyd ar gyfer rhai unedau/deilliannau, gall fod angen mwy o dystiolaeth atodol yn y portffolio – nodir hyn ar y ffurflen cofnodi arsylwadau (Atodiad 3).

Ar gyfer unrhyw unedau o Grŵp Dewisol B lle nad yw'r ddeilliannau'n cael eu harsylwi'n llawn drwy'r tasgau strwythuredig, dylai'r gofynion tystiolaeth a amlinellir ar gyfer yr uned yn llawlyfr y cymhwyster gael eu defnyddio fel sail i gasglu tystiolaeth ar gyfer y portffolio.

Dylai tystiolaeth o'r portffolio gael ei chadw yn unol â gofynion cyfrinachedd a chydysnio'r sefydliad/llleoliad, yn ogystal â'r amodau a amlinellir yn y Llawlyfr Gweinyddu. Byddai'n fuddiol i dimau sicrhau ansawdd mewnol gadw cofnod o'r dystiolaeth gan ddefnyddio'r cofnod cwblhau asesiad (Atodiad 7).

Canllawiau ar dystiolaeth dderbyniol ar gyfer portffolio

Yn ogystal ag arsylwi, dylai aseswyr nodi cymysgedd priodol o ddulliau asesu eraill o'r rhestr isod, er mwyn helpu i gasglu tystiolaeth ar gyfer meysydd heb eu harsylwi'n llawn drwy'r tasgau strwythuredig, a helpu i ddatblygu portffolio'r ymgeisydd.

Mae'r rhestr isod yn nodi'r amrywiaeth o dystiolaeth sy'n dderbyniol, ond dylai'r ystyriaeth a roddir i'r math o dystiolaeth fod yn bennaf seiliedig ar bwrpas y dystiolaeth, a'i dilysrwydd i ddangos gallu'r ymgeisydd.

- **Tystion Arbenigol** – gallan nhw arsylwi ar ymarfer ymgeisydd a rhoi tystiolaeth arbenigol ar gyfer unedau seiliedig ar gymhwysedd a fydd yn meddu ar degwch gydag arsylwad yr aseswr ar gyfer unedau o Grŵp Dewisol B. Gweler yr arweiniad pellach yn yr adran isod ar rôl tystiolaeth tystion arbenigol.
- **Tystiolaeth tystion.** Dylai gael ei rhoi gan bobl sy'n gallu darparu tystiolaeth sy'n ategu'r ffordd mae ymgeisydd yn perfformio'n ymarferol. Lle ceisir tystiolaeth gan deuluoedd/gofalwyr, dylid sicrhau bod pwrpas y dystiolaeth yn cael ei ddeall ac nad oes unrhyw bwysau i'w rhoi.
- **Cynhyrchion gwaith** – gallan nhw fod yn unrhyw beth perthnasol a sydd wedi'i gynhyrchu gan yr ymgeiswyr eu hunain, neu lle maen nhw wedi gwneud cyfraniad sylweddol, sy'n dangos defnydd a chymhwysiad yn eu hymarfer.
- **Cyfrifon ymgeisydd / myfyriol** – disgrifir gweithredoedd ymgeiswyr mewn sefyllfaoedd penodol a/neu maen nhw'n yn myfyrio ar y rhesymau dros ymarfer yn y ffyrdd a ddewiswyd. Tra bydd ymgeiswyr yn cadw log myfyriol drwy'r cyfnod asesu, gall cyfrifon myfyriol ychwanegol hefyd ddarparu mwy o dystiolaeth y gall ymgeiswyr werthuso eu gwybodaeth a'u hymarfer yn yr holl weithgareddau sy'n rhan o'r cymhwyster hwn.
- **Cwestiynau** a ofynnir gan aseswyr ac a atebir gan ymgeiswyr i ategu tystiolaeth a gynhyrchir drwy arsylwadau ac unrhyw fath arall o dystiolaeth a ddefnyddir. Efallai y bydd aseswyr yn gallu cael peth gwybodaeth a dealltwriaeth o arsylwi ar ymarfer ymgeiswyr. Gallan nhw ofyn cwestiynau i gadarnhau eu dealltwriaeth a/neu gwmpasu unrhyw feysydd sy'n weddill. Gall cwestiynau gael eu gofyn ar lafar neu'n ysgrifenedig ond, yn y ddau achos, rhaid cadw cofnod o'r cwestiynau a'r ymatebion.
- **Astudiaethau achos** – rhaid iddyn nhw fod yn seiliedig ar ymarfer a phrofiadau gwaith go iawn, a bydd angen iddyn nhw gael eu dilysu gan aseswr os cânt eu defnyddio fel tystiolaeth o berfformiad cymwys. Byddai ymarferion damcaniaethol neu efelychu ond yn dderbyniol fel tystiolaeth o wybodaeth a dealltwriaeth.
- Gall **gwrslyfrau GCC wedi'u cwblhau** a ddefnyddir ar gyfer Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer yr Iechyd a Gofal Cymdeithasol ddarparu tystiolaeth ategol ar gyfer y portffolio, gan gynnwys elfennau myfyriol a llai strwythuredig, ond sy'n dal i fod yn dystiolaeth tyst wybodus.
- Gellir defnyddio **efelychiadau o asesiadau** lle mae gofynion tystiolaeth unedau unigol yn nodi hynny'n benodol. Os ceir achosion o efelychu, rhaid i hynny ddigwydd mewn amgylchedd gwaith realistig. Gweler yr arweiniad yn Llawlyfr y Cymhwyster am fanylion pellach.

Mae'n rhaid i'r dystiolaeth a gedwir yn y portffolio fodloni'r gofynion cyfrinachedd a chydysnio gofynion y sefydliad/lleoliad, a bod yn unol â'r gofynion a amlinellir gan y Llawlyfr Gweinyddu.

Defnyddio logiau/cyfrifon myfyriol

Fel rhan o'r asesiad, mae'n ofynnol i'r ymgeisydd gynnal log myfyriol o'u hymarfer yn ystod y cyfnod asesu. Argymhellir cynghori ymgeiswyr ar sut i fanteisio i'r eithaf ar y log hwn fel adnodd myfyriol; nid dim ond fel dyddiadur i nodi naratif lefel uchel o ba weithgareddau a gyflawnwyd ganddyn nhw. Dylai'r log gael ei ddefnyddio at bwrpasau hunanfyfrio, dadansoddiad beirniadol ac adolygiad manwl o'r hyn a gyflawnwyd ganddyn nhw; beth sydd wedi mynd yn dda, neu ddim cystal, a'u meddyliau a'u teimladau am sut i ddatblygu a gwella eu hymarfer.

Anogir rheolwyr i archwilio'r defnydd o wahanol fathau o logiau myfyriol, gan helpu ymgeiswyr i nodi a defnyddio fformat sy'n adlewyrchu eu dull o ddysgu orau.

Cynghorir ymgeiswyr i ddiweddarau eu log myfyriol yn rheolaidd; dylid pennu disgwyliadau yn y cyfarfod pwynt cyswllt cyntaf o ran pa mor rheolaidd y dylai ymgeiswyr ddiweddarau eu log. Disgwylir i ymgeiswyr ddiweddarau eu log i'w rannu ym mhob un o'u cyfarfodydd cynnydd o leiaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig hysbysu ymgeiswyr am werth a phwysigrwydd myfyrio fel proses barhaus, a'u hannog i ddiweddarau eu log drwy'r cyfnod cyn cyfarfodydd cynnydd, yn hytrach na dim ond ar gyfer y cyfarfodydd hynny.

Defnyddio tystiolaeth tystion

Mae tystiolaeth tystion yn dderbyniol yn y portffolio, ond dylai'r defnydd ohoni fodloni'r gofynion a nodir isod.

Bydd angen i'r aseswr ystyried statws y tyst er mwyn pennu faint o bwys sydd ar ei ddatganiad, a pha dystiolaeth ategol arall allai fod ei hangen er mwyn cadarnhau cymhwysedd.

Gellir barnu statws tystion yn erbyn y meini prawf canlynol:

1. Arbenigwr galwedigaethol yn bodloni'r meini prawf penodol ar gyfer rôl Tystion Arbenigol (Gweler yr adran Dystion arbenigol isod);
2. Arbenigwr galwedigaethol ddim yn gyfarwydd â'r safonau;
3. Rhywun nad yw'n arbenigwr yn gyfarwydd â'r safonau;
4. Rhywun nad yw'n arbenigwr ddim yn gyfarwydd â'r safonau.

Yn achos unrhyw dystiolaeth gan dyst sy'n cael ei chynnwys yn y portffolio, dylid nodi'n glir pwy yw'r tyst, a'i statws.

Tystion arbenigol

Oherwydd natur yr asesiadau, a phwysigrwydd arsylwi ar ymarfer er mwyn arddel barn gyfannol, dim ond dystiolaeth tyst arbenigol a fyddai'n gallu cael ei defnyddio:

- i ddarparu dystiolaeth arbenigol yn sgil arsylwi ar ymarfer ar gyfer uned o Grŵp Dewisol B
- os byddai natur sensitif agweddau ar weithgaredd a gynhaliwyd fel rhan o'r arsylwadau a gynlluniwyd yn cael ei chyfyngu'n amhriodol gan bresenoldeb yr aseswr, neu os byddai pryderon diogelu yn cyfyngu ar arsylwad arsylwr*.

Dylid cytuno â'r aseswr ymlaen llaw yn rhan o'r broses gynllunio a ddylid defnyddio dystiolaeth tyst arbenigol i ddarparu dystiolaeth.

* **Noder**, wrth gynllunio arsylwadau, rhaid i'r aseswr sicrhau bod pob gweithgaredd a gynlluniwyd yn ei gwneud yn bosibl i arsylwi ar ddigon o weithgarwch i'w alluogi i arddel barn asesu ddilys.

Mae angen i'r aseswr allu cael digon o dystiolaeth sicr o'i arsylwadau ei hun fel sail i asesiad cadarn o bob tasg.

Lle maen nhw'n cael eu defnyddio, rhaid i dystion arbenigol fodloni'r meini prawf canlynol:

- yn meddu ar wybodaeth ddigonol am yr unedau y byddant yn rhoi dystiolaeth ar eu cyfer
- yn alwedigaethol gymwys yn eu maes arbenigedd i'r un lefel o leiaf â'r uned y byddant yn rhoi dystiolaeth ar ei chyfer
- yn meddu ar unrhyw gymhwyster asesu perfformiad yn y gweithle neu fod wedi gweithio mewn swydd broffesiynol a oedd yn cynnwys gwerthuso ymarfer bob dydd staff

Lle defnyddir dystiolaeth tyst arbenigol i ddarparu dystiolaeth o gymhwysedd, rhaid i'r dystiolaeth ymwneud yn uniongyrchol â pherfformiad yr ymgeisydd yn y sefydliad/lleoliad, a bod y tyst wedi arsylwi arno'n uniongyrchol. Rhaid cofnodi unrhyw arsylwadau gan dystion arbenigol, a chadw'r dystiolaeth honno'n rhan o'r portffolio. Mae angen i'r aseswr ddilysu'r holl arsylwadau gan dystion arbenigol a ddefnyddiwyd yn rhan o'r broses asesu.

Tystion nad ydyn nhw'n arbenigwyr

Dim ond fel dystiolaeth ategol yn y portffolio y gellir defnyddio dystiolaeth ychwanegol tyst 'nad yw'n arbenigol' (gan unigolion â statws 2, 3 neu 4).

Nid oes angen i dystion nad ydyn nhw'n arbenigwyr feddu ar gymhwyster asesu, oherwydd yr aseswr fydd yn gwneud y penderfyniad(au) asesu terfynol ynghylch pa mor dderbyniol (dilysrwydd a digonolrwydd) yw'r holl dystiolaeth yn y portffolio.

Paratoi ar gyfer y drafodaeth

Y gweithgaredd asesu terfynol sydd angen cael ei gwblhau gan yr ymgeisydd yw trafodaeth ffurfiol â'r aseswr. Mae'r asesiad hwn wedi cael ei ddatblygu i helpu'r aseswr i gadarnhau neu gydgrynhoi unrhyw fylchau mewn dystiolaeth; neu fagu hyder yr aseswr, yn enwedig ynghylch unrhyw agweddau ar wybodaeth na chawsant eu gweld neu na chawsant eu harchwilio'n llawn wrth arsylwi ar ymarfer. Bydd

yr aseswr yn defnyddio'r drafodaeth i holi'r ymgeisydd am feysydd lle nodwyd nad oes digon o dystiolaeth wedi deillio o'r portffolio a'r tasgau. Efallai y bydd yr aseswr wedi nodi'r diffygion hyn yn gynharach yn y broses asesu, e.e. wrth gynllunio a mapio deilliannau'n gychwynnol, neu am na welir tystiolaeth yn ystod y broses arsylwi ac asesu barhaus; neu gall wneud hynny wrth adolygu'r dystiolaeth derfynol a gyflwynwyd cyn y drafodaeth (Gweler hefyd Adran 6: Pennu'r asesiad terfynol).

Cyn y drafodaeth, dylai'r aseswr ddefnyddio Adran 1 o ffurflen cofnodi'r drafodaeth (Atodiad 6) i gynllunio strwythur y drafodaeth, h.y. ystyried y deilliannau i'w hadolygu a'r amrywiaeth o gwestiynau a ofynnir i'r ymgeisydd.

Cynnal y drafodaeth

Gan nad oes angen i'r ymgeisydd baratoi unrhyw beth penodol ar gyfer y drafodaeth, dylai'r aseswr roi cyfrif am hyn yn ystod yr asesiad; er enghraifft, sicrhau bod y cwestiynau'n glir, neu fod digon o gyd-destun perthnasol yn cael ei roi os gofynnir y cwestiwn ar agwedd ar ymarfer yr arsylwyd arno er mwyn galluogi'r ymgeisydd i gofio'r digwyddiad.

Amgylchedd asesu

Ar ddiwrnod yr asesiad, bydd yr aseswr yn gyfrifol am sicrhau bod yr asesiad yn cael ei gynnal mewn amgylchedd priodol lle nad oes unrhyw amharu na thorri ar draws. Efallai y bydd angen i'r aseswr gysylltu â'r rheolwr er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd asesu yn cael ei gynnal; gallai hyn gynnwys sicrhau bod cyfeiriadau priodol a threfniadau eraill ar waith a fydd yn cynnal amgylchedd addas tra bo'r gweithgaredd yn mynd rhagddo.

Cyflwyno'r drafodaeth

Mae'n bwysig bod yr aseswr yn sicrhau bod camau yn cael eu cymryd i dawelu meddwl yr ymgeisydd ar ddechrau'r asesiad a chyn dechrau casglu tystiolaeth. Pwrpas hyn yw gallu cynnal asesiad cywir o'r ffordd mae'r ymgeisydd yn cyrraedd y safonau drwy leihau'r graddau y gallai ei nerfau effeithio ar ei berfformiad.

Dylai'r aseswr:

1. Cyflwyno ei hun ac esbonio ei rôl yn y broses.
2. Crynhoi pwrpas a strwythur y drafodaeth.
3. Pwysleisio'r ffaith y bydd yr asesiad yn gwbl gyfrinachol.
4. Gofyn i'r ymgeisydd a oes ganddo unrhyw gwestiynau cyn i'r asesiad ddechrau.

Yn ystod y drafodaeth

Yn ystod y drafodaeth dylai'r aseswr ddefnyddio Adran 2 o'r ffurflen cofnodi trafodaeth (Atodiad 6) i wneud nodiadau o ymatebion yr ymgeisydd.

Dylai'r drafodaeth deimlo mor naturiol â phosibl, gan ddefnyddio cwestiynau agored er mwyn galluogi'r ymgeisydd i lywio'r sgwrs. Disgwylir i'r aseswr ddefnyddio nifer o dechnegau er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn parhau i fod yn effeithiol ac â phwyslais penodol. Gall y rhain gynnwys:

- Defnyddio cwestiynau dilynol lle bo angen er mwyn cael mwy o wybodaeth neu egluro pwyntiau, fel 'Sut roeddet ti'n gwybod hynny?', 'Sut wnes di ddod i'r casgliad hwnnw?'
- Crynhoi'r pwyntiau a nodwyd er mwyn sicrhau ei fod wedi deall a chofnodi tystiolaeth yr ymgeisydd yn gywir

Yn dilyn y drafodaeth, dylai'r aseswr lenwi'r ffurflen cofnodi trafodaeth (Atodiad 6) – bydd angen cadarnhau p'un a oes tystiolaeth ddigonol o'r deilliannau allweddol.

Amseriadau

Gan mai pwrpas y drafodaeth yw cadarnhau a chydgrynhai tystiolaeth, ni ddisgwylir iddi bara mwy na 15-20 munud.

Cadw tystiolaeth

Mae hawl gan yr aseswr i recordio'r drafodaeth yn ddigidol er mwyn cefnogi'r broses asesu, e.e. i ôl-adolygu'r drafodaeth, neu helpu i wneud nodiadau y gall fod yn anodd eu gwneud yn llawn yn ystod y drafodaeth ei hun. Os bydd yr aseswr am recordio'r drafodaeth yn ddigidol, rhaid iddo drafod hyn gyda'r ymgeisydd a'i gael i gytuno cyn dechrau.

Os bydd yr aseswr yn defnyddio cofnod digidol at bwrpasau asesu, mae'n bwysig iddo barhau i gwblhau'r adran sylwadau a chasgliad cyffredinol ar y ffurflen cofnodi trafodaeth, a chadarnhau ei fod yn dystiolaeth o'r drafodaeth. Os bydd yr aseswr am ddefnyddio nodiadau a wnaed fel rhan o'r cofnod digidol, rhaid i'w sylwadau a'i gasgliadau cyffredinol gyfeirio at y pwynt yn y cofnod digidol lle nodwyd y dystiolaeth hon. Os cyfeirir at y cofnod digidol ar y ffurflen gofnodi, rhaid i'r cofnod digidol gael ei gadw a'i storio'n ddiogel, a bod ar gael at bwrpasau sicrhau ansawdd allanol.

5 Mapio – enghreifftiol

Mae'r adnodd mapio enghreifftiol isod wedi'i ddatblygu i helpu i feithrin dealltwriaeth o sut y gellir dangos tystiolaeth o wahanol unedau/deilliannau mewn ffordd realistig ym mhob tasg asesu, a dangos sut mae cynnwys yr unedau dewisol yn datblygu a myfyrio gwybodaeth y cymhwyster Craidd a'r cynnwys gorfodol.

Dylid defnyddio'r enghraifft hon fel enghraifft yn unig. Bydd y dystiolaeth wirioneddol i'w harsylwi yn dibynnu ar sut mae'r gweithgareddau'n cael eu datblygu a'u cyflwyno, ond gall y gwaith mapio hwn helpu'r rheolwr/aseswr, yn ystod y broses gynllunio, i nodi'r meysydd byddai modd ymdrin â nhw ym mhob gweithgaredd, yn ogystal â nodi lle y gellid casglu tystiolaeth ychwanegol, os na chafodd ei harsylwi yn ystod yr arsylwadau.

Uned enghraifft			
232 – Darparu gofal a chymorth i unigolion sy'n byw mewn cartrefi gofal			
Maes canlyniad craidd	<i>Sut mae gwybodaeth/dealltwriaeth sylfaenol yr uned yn adlewyrchu'r canlyniadau allweddol o'r uned graidd a gorfodol</i>	<i>Sut mae meysydd cynnwys arferion yn adlewyrchu'r canlyniadau allweddol o'r uned graidd a gorfodol</i>	<i>Y tasgau asesu ble mae'r aseswr yn debygol o gael y rhan fwyaf o dystiolaeth bod yr ymgeisydd yn gymwys i gyflawni'r meysydd canlyniadau hyn</i>
	<i>Noder na fwriedir i'r gwaith mapio isod fod yn gynhwysfawr, ond mae'n cael ei ddefnyddio i roi syniad o'r ffordd mae meysydd penodol o gynnwys yn yr uned yn gysylltiedig â'r wybodaeth/ymarfer craidd a sut maent yn datblygu ohono</i>		
Egwyddorion a gwerthoedd	2.1-2.7 3.1-3.17	3.18-3.23 4.2-4.4	Tasgau strwythuredig
Iechyd a llesiant	4.1, 5.1-5.5.6	3.23 5.7-5.10 6.1-6.3	Tasgau strwythuredig
Ymarfer proffesiynol	7.1-7.4		Tasgau strwythuredig Portffolio
Diogelu unigolion			Tasgau strwythuredig Tystiolaeth bortffolio

lechyd a diogelwch		6.3	Tystiolaeth bortffolio
Meysydd gwybodaeth ychwanegol	1.1-1.5		Tystiolaeth bortffolio Trafodaeth

6 Pennu'r asesiad terfynol

Penderfyniadau asesu

Mae cynnwys yr uned wedi'i ddatblygu fel deilliannau dysgu a meini prawf asesu. Fodd bynnag, dylai penderfyniadau asesu gael eu gwneud ar lefel y deiliant dysgu. Dylai'r aseswr ystyried p'un a yw'r broses a'r deiliant wedi cael eu dangos:

- yn addas ar gyfer yr unigolyn/unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth
- yn unol â disgwyliadau'r sefydliad/lleoliad a'r rôl,
- yn unol a egwyddorion craidd iechyd a gofal cymdeithasol (uned 230),
- yn gyson yn ystod y pedwar arsylwad.

Bydd hyn yn rhoi digon o dystiolaeth i'r aseswr fodloni'i hun fod yn yr ymgeisydd yn gymwys o ran y meysydd cynnwys a asesir drwy'r tasgau.

Dylai ffurflenni cofnodion arsylwi ar wahân gael eu defnyddio ar gyfer pob arsylwad ac i helpu'r aseswr i greu darlun o berfformiad yr ymgeisydd dros y cyfnod.

Mae'r ffurflenni cofnodi yn gofyn i'r aseswr ddarparu datganiad sy'n disgrifio sut mae'r deilliannau wedi'u cyflawni yn unol â'r egwyddorion perthnasol. Bydd perfformiad sy'n dangos arfer da yn arbennig yn cael ei gofnodi at bwrpas adborth, ac mae unrhyw feysydd nad yw'r ymdriniaeth ohonyn nhw yn ôl y disgwyl yn cael eu cofnodi, i'w hystyried yn yr arsylwad nesaf / wrth ddatblygu'r portffolio yn barhaus / yn y drafodaeth derfynol fel sy'n briodol.

Cyflwyno tystiolaeth ar gyfer yr asesiad terfynol

Ar ôl cwblhau tasgau A-Ch, dylai'r aseswr gadarnhau bod yr holl weithgarwch asesu ymarferol wedi'i gyflawni, gan ddefnyddio'r 'Cofnod Cwblhau Asesiad' (Atodiad 7). Bydd y portffolio a'r log myfyriol yn cael eu cyflwyno i'w hasesu gan yr aseswr ar ôl i dasgau A-Ch gael eu cwblhau. Yna, cynhelir trafodaeth derfynol gyda'r ymgeisydd (tasg D) er mwyn rhoi'r cyfle i'r aseswr ofyn unrhyw gwestiynau eraill ar feysydd lle nad yw'n teimlo bod digon o dystiolaeth.

Bydd yr aseswr yn asesu'r holl dystiolaeth o'r holl dasgau er mwyn barnu p'un a oes digon o dystiolaeth i ddyfarnu'r cymhwyster.

Dylai'r gwaith asesu a'r adborth ddigwydd o fewn pythefnos i gyflwyno'r asesiad wedi'i gwblhau. Os penderfynir nad oes digon o dystiolaeth, ac nad yw'r aseswr yn fodlon bod modd dyfarnu marc llwyddo, dylai lenwi'r ffurflen adborth (Atodiad 8) er mwyn nodi unrhyw feysydd o dystiolaeth i'w hailgyflwyno. Yna dylai'r aseswr drafod y rhesymau dros y deiliant gyda'r rheolwr a'r ymgeisydd, a dylai nodi y gofynnir i'r ymgeisydd gyflwyno mwy o dystiolaeth.

Ailgyflwyno

Os bydd angen i ymgeisydd gyflwyno mwy o dystiolaeth, rhaid darparu adborth a chefnogaeth briodol er mwyn ei alluogi i wneud hynny. Os na fydd ymgeisydd yn cyflawni'r deilliannau dysgu priodol wrth ailgyflwyno tystiolaeth wedyn, dylai'r ganolfan:

- trefnu cefnogaeth ychwanegol i'r ymgeisydd, neu,
- hysbysu'r ymgeisydd am ei hawl i apelio.

Rhaid i ganolfannau gofnodi unrhyw gamau a gymerir a/neu unrhyw gymorth ychwanegol a roddir i'r ymgeisydd.

7 Gofynion gweinyddu asesiadau cyffredinol

Iechyd a diogelwch

Rhan hanfodol o holl gymwysterau ac asesiadau City & Guilds yw bod angen dilyn gweithdrefnau gweithio diogel. Cyfrifoldeb canolfannau yw sicrhau bod yr holl ofynion iechyd a diogelwch ac ymarferion diogelu ar waith cyn i unrhyw ymgeisydd ddechrau ar asesiadau ymarferol. Pwysigrwydd arferion gweithio diogel, gofynion y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a rhaid cadw bob amser at y Codau Ymarfer sy'n gysylltiedig â'r sector.

Os bydd ymgeisydd yn methu â dilyn yr ymarferion a'r gweithdrefnau cywir o ran iechyd a diogelwch yn ystod yr asesiad ymarferol, rhaid atal yr asesiad a dweud wrth yr ymgeisydd pam mae hynny'n digwydd. Dylid rhoi gwybod i'r ymgeiswyr nad ydyn nhw wedi cyrraedd y safon ofynnol ar gyfer yr asesiad. Ar ddisgresiwn y ganolfan, gall ymgeiswyr ailsefyll yr asesiad ar ddyddiad diweddarach pan fyddan nhw'n gallu gweithio'n ddiogel. Os bydd unrhyw amheuaeth, dylid gofyn cyngor gan y Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol.

Diogelu

Rhaid i ymgeiswyr weithio mewn ffyrdd sy'n ystyried yn llawn faterion diogelu yn eu hamgylchedd gwaith bob amser. Dylid atgoffa ymgeiswyr o bwysigrwydd ystyried materion diogelu ym mhob gweithgaredd asesu.

Cymorth ac adborth

Gall rheolwyr/aseswyr roi arweiniad i'r ymgeiswyr o ran y dystiolaeth sy'n ofynnol drwy gefnogi mynediad i'r tasgau. Dylai'r rheolwr/aseswr sicrhau bod yr ymgeisydd yn deall beth yr hyn y mae angen ei wneud ac erbyn pryd, a bod angen darparu esboniadau sy'n dangos dealltwriaeth yn ei waith ysgrifenedig. Fodd bynnag, dylid sicrhau nad yw'r ymgeisydd yn cael ei arwain, nac yn cael gwybod beth i'w ddweud, mewn ffordd sy'n ei atal rhag gallu dangos ei broses gwneud penderfyniadau a'i ymarfer ei hun.

Apeliadau

Os bydd apêl yn erbyn penderfyniad asesu, rhaid cyfeirio ymgeisydd at weithdrefn apeliadau mewnol y ganolfan ei hun.

Atodiad 1 Ffurflen gynllunio'r ymgeisydd

Gwaith cynllunio'r ymgeisydd - ffurflen gryno			
Enw'r ymgeisydd		Rhif yr ymgeisydd	
Dyddiad y cyfarfod cynllunio			
Unedau a ddewiswyd			
Cynnal gweithgareddau gofal a chymorth			
Arsylwad 1			
Y math o ofal a chymorth/gweithgaredd i'w gynnal <i>Dylai hyn roi disgrifiad byr o'r ffordd mae'n cyfrannu at gefnogi iechyd a llesiant yr unigolyn/unigolion</i>			
Amlinelliad o'r ffordd mae'r gofal a'r cymorth yn cael eu darparu <i>Dylid rhoi amlinelliad byr o'r gofal a'r cymorth, a'r amserlen a gynlluniwyd</i>			
Y gofynion o ran gofal a chymorth <i>Mae hyn yn cynnwys unrhyw waith paratoi y mae ei angen; ystyriaethau amgylcheddol ac unrhyw adnoddau</i>			
Amlinellwch eich rôl o fewn y broses, a manylion pobl eraill a fydd yn cymryd rhan			
Gwybodaeth ychwanegol <i>Gan gynnwys unrhyw gynlluniau wrth gefn posibl y gall fod eu hangen</i>			
Arsylwad 2			
Y math o ofal a chymorth/gweithgaredd i'w gynnal <i>Dylai hyn roi disgrifiad byr o'r ffordd mae'n cyfrannu at gefnogi iechyd a llesiant yr unigolyn/unigolion</i>			
Amlinelliad o'r ffordd mae'r gofal a'r cymorth yn cael eu darparu <i>Dylid rhoi amlinelliad byr o'r gofal a'r cymorth, a'r amserlen a gynlluniwyd</i>			
Y gofynion o ran gofal a chymorth <i>Mae hyn yn cynnwys unrhyw waith paratoi y mae ei angen; ystyriaethau amgylcheddol ac unrhyw adnoddau</i>			
Amlinellwch eich rôl o fewn y broses, a manylion pobl eraill a fydd yn cymryd rhan			
Gwybodaeth ychwanegol <i>Gan gynnwys unrhyw gynlluniau wrth gefn posibl y gall fod eu hangen</i>			
Arsylwad 3			
Y math o ofal a chymorth/gweithgaredd i'w gynnal			

<i>Dylai hyn roi disgrifiad byr o'r ffordd mae'n cyfrannu at gefnogi iechyd a llesiant yr unigolyn/unigolion</i>	
Amlinelliad o'r ffordd mae'r gofal a'r cymorth yn cael eu darparu <i>Dylid rhoi amlinelliad byr o'r gofal a'r cymorth, a'r amserlen a gynlluniwyd</i>	
Y gofynion o ran gofal a chymorth <i>Mae hyn yn cynnwys unrhyw waith paratoi y mae ei angen; ystyriaethau amgylcheddol ac unrhyw adnoddau</i>	
Amlinellwch eich rôl o fewn y broses, a manylion pobl eraill a fydd yn cymryd rhan	
Gwybodaeth ychwanegol <i>Gan gynnwys unrhyw gynlluniau wrth gefn posibl all fod eu hangen</i>	
Arsylwad 4	
Y math o ofal a chymorth/gweithgaredd i'w gynnal <i>Dylai hyn roi disgrifiad byr o'r ffordd mae'n cyfrannu at gefnogi iechyd a llesiant yr unigolyn/unigolion</i>	
Amlinelliad o'r ffordd mae'r gofal a'r cymorth yn cael eu darparu <i>Dylid rhoi amlinelliad byr o'r gofal a'r cymorth, a'r amserlen a gynlluniwyd</i>	
Y gofynion o ran gofal a chymorth <i>Mae hyn yn cynnwys unrhyw waith paratoi y mae ei angen; ystyriaethau amgylcheddol ac unrhyw adnoddau</i>	
Amlinellwch eich rôl o fewn y broses, a manylion pobl eraill a fydd yn cymryd rhan	
Gwybodaeth ychwanegol <i>Gan gynnwys unrhyw gynlluniau wrth gefn posibl y gall fod eu hangen</i>	
Llofnod yr ymgeisydd:	Dyddiad
Cadarnhad o lofnod yr aseswr:	Dyddiad
Cadarnhad o lofnod y rheolwr:	Dyddiad

Atodiad 2 Ffurflen gynllunio'r aseswr

Gwaith cynllunio'r aseswr - ffurflen gryno		
Enw'r ymgeisydd		Rhif yr ymgeisydd
Dyddiad y cyfarfod cynllunio		
Unedau i ymdrin â nhw		
Cynnal gweithgareddau gofal a chymorth		
Arsylwad 1		
Amserlen y gweithgaredd		
Defnyddiwch yr adran hon i wneud nodiadau ar y mathau o sgiliau y gall ymgeisydd eu dangos yn y gweithgaredd hwn		
Deilliannau dysgu y disgwylir eu gweld o'r gweithgaredd		
Cwestiynau ychwanegol y gall fod angen ystyried eu gofyn i'r ymgeisydd		
Arsylwad 2		
Amserlen y gweithgaredd		
Defnyddiwch yr adran hon i wneud nodiadau ar y mathau o sgiliau y gall ymgeisydd eu dangos yn y gweithgaredd hwn		
Deilliannau dysgu y disgwylir eu gweld o'r gweithgaredd		
Cwestiynau ychwanegol y gall fod angen ystyried eu gofyn i'r ymgeisydd		
Arsylwad 3		
Amserlen y gweithgaredd		
Defnyddiwch yr adran hon i wneud nodiadau ar y mathau o sgiliau y gall ymgeisydd eu dangos yn y gweithgaredd hwn		
Deilliannau dysgu y disgwylir eu gweld o'r gweithgaredd		
Cwestiynau ychwanegol y gall fod angen ystyried eu gofyn i'r ymgeisydd		
Arsylwad 4		

Amserlen y gweithgaredd	
Defnyddiwch yr adran hon i wneud nodiadau ar y mathau o sgiliau y gall ymgeisydd eu dangos yn y gweithgaredd hwn	
Deilliannau dysgu y disgwylir eu gweld o'r gweithgaredd	
Cwestiynau ychwanegol y gall fod angen ystyried eu gofyn i'r ymgeisydd	
Defnyddiwch yr adran hon i wneud nodiadau ar unrhyw ddeilliannau seiliedig ar ymarfer nad yw'n debygol yr arsylwir arnyn nhw drwy ymarfer. <i>Defnyddiwch yr adran hon i gadarnhau cynllun i ddangos y deilliannau hyn, neu i adolygu'r gofal a'r cymorth a gynlluniwyd i'w cyflawni</i>	

Atodiad 3 Ffurflen cofnodi arsylwadau

Cofnod arsylwi			
Enw'r ymgeisydd		Rhif yr ymgeisydd	
Rhif/dyddiad arsylwi			
Y gofal a'r cymorth sy'n cael eu harsylwi			
Deilliannau dysgu rydych yn disgwyl eu harsylwi			
Arsylwadau a wnaed <i>(Tanlinellwch sut mae'r arsylwadau yn adlewyrchu'r unedau a gyflawnir)</i>			
Tystiolaeth o Gefnogi Ymarfer Craidd <i>Amlinellwch unrhyw enghreifftiau neu dystiolaeth benodol lle mae'r ymgeisydd wedi dangos ei fod yn rhoi'r egwyddorion, ymddygiadau a gwerthoedd o Uned 230 ar waith.</i>			
Cwestiynau dilynol a ofynnwyd <i>(Rhestrwch y cwestiynau a ddefnyddiwyd i holi'r ymgeisydd ymhellach)</i>			
Deilliannau dysgu na chafodd eu dangos			
Adborth i'r ymgeisydd <i>Defnyddiwch yr adran hon i nodi unrhyw adborth i'w roi i'r ymgeisydd yn dilyn yr arsylwad hwn</i>			
Llofnod yr ymgeisydd:		Dyddiad	
Cadarnhad o lofnod y cyflogwr/mentor:		Dyddiad	
Cadarnhad o lofnod yr aseswr		Dyddiad	

Atodiad 4 Ffurflen cofnodi cyfarfod cynnydd

Ffurflen cofnodi cyfarfod cynnydd	
Enw'r ymgeisydd	Rhif yr ymgeisydd
Dyddiad y cyfarfod	
Cyfnod dan sylw	
<p><i>Crynodeb o'r pwyntiau trafod:</i></p>	
<p>Tystiolaeth o Gefnogi Ymarfer Craidd <i>Amlinellwch unrhyw enghreifftiau neu dystiolaeth benodol lle mae'r ymgeisydd wedi dangos ei fod yn rhoi'r egwyddorion, ymddygiadau a gwerthoedd o Uned 230 ar waith.</i></p>	
<p>Sylwadau/adborth ymgeiswyr <i>Bwriad yr adran hon yw darparu lle gwag i'r ymgeisydd nodi unrhyw sylwadau ei hun neu adborth am y cyfarfod.</i></p>	
<p>Adborth a roddwyd <i>Tanlinellwch unrhyw adborth cefnogol/datblygiadol a roddwyd i'r ymgeisydd yn ystod y sesiwn hon</i></p>	
<p>Cwestiynau dilynol a ofynnwyd <i>(Rhestrwch y cwestiynau a ddefnyddiwyd i holi'r ymgeisydd ymhellach, ac amlinellwch ei ymateb yn fras)</i></p>	
Deilliannau dysgu a ddangoswyd	

Llofnod yr ymgeisydd:		Dyddiad	
Cadarnhad o lofnod y rheolwr:		Dyddiad	

Atodiad 5 Ffurflen adolygu fyfyrion

Ymgeisydd – templed ffurflen adolygu fyfyrion			
Enw'r ymgeisydd		Rhif yr ymgeisydd	
Y gofal a'r cymorth a ddarperir/gweithgaredd			
Dyddiad y gofal a'r cymorth a ddarperir/gweithgaredd			
Beth wnaethoch chi ei weld/ei brofi yn ystod yr asesiad? <i>Beth am feddwl am gwestiynau fel,</i> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Beth oeddech chi'n ei deimlo?</i> • <i>Beth wnaeth i chi deimlo fel hyn?</i> 			
Beth oeddech chi'n teimlo gwnaeth weithio'n dda, neu ym mha feysydd oeddech chi'n teimlo nad oedd pethau wedi gweithio cystal?			
Beth fydddech chi'n ystyried ei wneud yn wahanol yn y dyfodol, a sut fydddech yn mynd ati? <i>Beth am feddwl am gwestiynau fel,</i> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Beth arall y gellid bod wedi'i wneud?</i> • <i>Sut y gallai pethau weithio'n well yn y dyfodol?</i> • <i>Beth rydych wedi'i ddysgu am eich ymarfer y byddwch yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf?</i> 			
Unrhyw sylwadau/myfyrdodau eraill			

Atodiad 6 Ffurflen cofnodi trafodaeth

Enw'r ymgeisydd	Teitl	Rhif yr ymgeisydd	
Enw'r aseswr	Enw'r aseswr	Dyddiad asesu	DD/MM/BB

Adran 1

Meysydd deilliannau allweddol na chafodd eu dangos drwy'r tasgau/portffolio, neu i'w cydgrynhai ymhellach

Rhowch fanylion a wnaiff gefnogi strwythur y drafodaeth, e.e.

- Mathau o gwestiynau i'w gofyn a wnaiff helpu i ddangos gwybodaeth/dealltwriaeth yr ymgeisydd ar gyfer meysydd deilliannau allweddol sy'n weddill

Rhan 2

Nodiadau o'r drafodaeth

Prif sylwadau a chasgliadau

Cadarnhaf fod y dystiolaeth a roddir yma yn gyfrif cywir o'r asesiad a gynhaliwyd.

Llofnod yr aseswr	Llofnod	Dyddiad	DD/MM/BB
Llofnod yr ymgeisydd	Llofnod	Dyddiad	DD/MM/BB

Atodiad 7 Cofnod cwblhau asesiad

Tasg	Tystiolaeth	Cyfeirnod cofnod tystiolaeth	Deilliannau dysgu a gadarnhawyd	Nodiadau	Adborth i'r ymgeisydd
A	Log myfyriol				
	Portffolio o dystiolaeth				
	Tystiolaeth 1				
	Tystiolaeth 2				
	Tystiolaeth 3				
B1-B4	Ffurflen gynllunio'r ymgeisydd				
C1	Tystiolaeth yr ymgeisydd				
	Tystiolaeth yr ymgeisydd				
	Arsylwad 1 yr Aseswr				
C2	Tystiolaeth yr ymgeisydd				
	Tystiolaeth yr ymgeisydd				
	Arsylwad 2 yr Aseswr				
C3	Tystiolaeth yr ymgeisydd				
	Tystiolaeth yr ymgeisydd				
	Arsylwad 3 yr Aseswr				
C4	Tystiolaeth yr ymgeisydd				
	Tystiolaeth yr ymgeisydd				
	Arsylwad 4 yr Aseswr				
Ch1	Adolygu gweithgaredd 1				
Ch 2	Adolygu gweithgaredd 2				
Ch 3	Adolygu gweithgaredd 3				
Ch 4	Adolygu gweithgaredd 4				

Atodiad 8 Ffurflen adborth

Teitl / llwybr y cymhwyster:

--

Enw'r ymgeisydd	Rhif yr ymgeisydd
Enw'r aseswr	Dyddiad cyflwyno

Rhif(au) a theitl(au) yr uned

Cyfeirnod y Dystiolaeth	Adborth	Dyddiad targed a chynllun gweithredu ailgyflwyno

Cadarnhaf fod yr asesiad hwn wedi cael ei gwblhau i'r safon ofynnol a'i fod yn bodloni'r gofynion o ran dilysrwydd, cyfrededd, dilysrwydd a digonolrwydd.

Llofnod yr aseswr a'r dyddiad:

Atodiad 9 Datganiad

Datganiad Dilysrwydd

Enw'r ymgeisydd

Rhif yr ymgeisydd

Enw'r ganolfan

Rhif y ganolfan

Ymgeisydd:

Rwy'n cadarnhau mai fy ngwaith i yw'r holl waith a gyflwynwyd, a fy mod wedi cydnabod yr holl ffynonellau a ddefnyddiwyd gennyf.

Llofnod yr ymgeisydd

Dyddiad

Rheolwr:

Rwy'n cadarnhau y gwnaed yr holl waith o dan amodau a gynlluniwyd i sicrhau dilysrwydd gwaith yr ymgeisydd, ac rwy'n fodlon, hyd eithaf fy ngwybodaeth, mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r hyn a gynhyrchwyd.

Llofnod y rheolwr

Dyddiad

Aseswr

Rwy'n cadarnhau y gwnaed yr holl waith o dan amodau a gynlluniwyd i sicrhau dilysrwydd gwaith yr ymgeisydd, ac rwy'n fodlon, hyd eithaf fy ngwybodaeth, mai gwaith yr ymgeisydd yn unig yw'r hyn a gynhyrchwyd.

Llofnod yr aseswr

Dyddiad

Noder:

Lle nad yw'r ymgeisydd a/neu'r rheolwr/aseswr yn gallu cadarnhau dilysrwydd, neu lle na fydd wedi gwneud hynny drwy lofnodi'r datganiad hwn, ni fydd y gwaith yn cael ei dderbyn i'w gymedroli. Os bydd unrhyw gwestiwn yn codi ynghylch dilysrwydd, gellir cysylltu â'r rheolwr/aseswr er mwyn cael cyfiawnhad.